Hysbysiad Newyddion

Caniatáu Cynlluniau Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig Valero

Penfro, 01 Mawrth 2018 – Cymeradwywyd cynigion i adeiladu Uned Gydgynhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) ym Mhurfa Penfro gan Valero Energy Corporation, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect £127 miliwn arfaethedig.

Bydd yr uned 45 megawat a gynigiwyd gan Valero'n darparu pŵer i'r burfa, yn ogystal ag ategu galw'r burfa am ager, a dyma'r prosiect cyntaf o'i fath i gael caniatâd cynllunio fel proses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Gyda diwydiant puro'r DU yn wynebu heriau niferus, bydd yr Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig yn galluogi Valero reoli costau trydan y dyfodol yn well a defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod y burfa'n gweithredu'n fwy cynaliadwy a bod purfa Penfro – sy'n un o gyflogwyr blaenllaw de Cymru ac un o'r purfeydd mwyaf a mwyaf cymhleth yn Ewrop – yn dal i fod yn llwyddiannus yn y farchnad fyd-eang gystadleuol.

Meddai Ed Tomp, Is-lywydd Valero a Rheolwr Cyffredinol y Burfa, "Mae'r penderfyniad hwn gan Valero i gymeradwyo ein cynlluniau ar gyfer Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig yn uchafbwynt blwyddyn o ymdrech aruthrol i gael cymeradwyo'r buddsoddiad sylweddol hwn yn economi Cymru. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i gymeradwyo rhoi caniatâd cynllunio i'n prosiect £127 miliwn arfaethedig ym Mhurfa Penfro'n dystiolaeth o agwedd gydweithredol Valero at weithio'n gadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru, rheolyddion a'r cyhoedd.

Aeth Tomp rhagddo, "Mae'r prosiect hwn wrth galon ein cynlluniau i gynnal hyfywedd hirdymor y burfa a chynorthwyo diogelu swyddi'r dyfodol yn y sector olew agosaf at y cwsmer yng Nghymru. Nawr y cafwyd caniatâd terfynol y gorfforaeth, byddwn yn penodi prif gontractwr i ddechrau'r cyfnod adeiladu ac, yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cynnal diwrnod agored i bobl leol drafod cyfleoedd gwaith yn ystod y prosiect."

Diwedd